Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for Educational Leadership Wales



**Cydymaith yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru**

**Gwahoddiad i wneud cais i fod yn Gydymaith yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol**

agaa.cymru | nael.cymru

Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for Educational Leadership Wales

# Gwahoddiad i wneud cais i fod yn Gydymaith yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol

## Cyflwyniad

Mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod Cymru yn lle gwych i fod yn arweinydd addysgol a'n bod, drwy arweinyddiaeth o ansawdd uchel ar draws y system addysg, yn cyflawni uchelgais glir ein cenedl ar gyfer dysgwyr.

Mae datblygu arweinyddiaeth system effeithiol yn ganolog i'r daith diwygio addysg yng Nghymru ac mae wrth wraidd y gwaith yr ydym yn ei wneud drwy ein model Cydymaith blaenllaw. Mae ein gweledigaeth ar gyfer 2026 yn disgrifio arweinwyr systemau sy'n ysgogi hunan-welliant, gyda gweithwyr proffesiynol yn cydweithio ac yn arwain y tu hwnt i strwythurau sefydliadol, rhwng haenau ac ar draws sectorau.

I'n helpu i gyflawni'r weledigaeth hon, rydym yn chwilio am uwch arweinwyr effeithiol a chredadwy o bob rhan o Gymru sy'n gweithio mewn Ysgolion (Penaethiaid Cynorthwyol, Dirprwy Benaethiaid a Phenaethiaid), Gwaith Ieuenctid (Uwch Arweinwyr) ac Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Oedolion yn y Gymuned (Uwch Arweinwyr) i ddod yn garfan nesaf o Gymdeithion yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol.

## Pam ddylwn i wneud cais?

Mae dros 70 o uwch arweinwyr yn y sector addysg wedi elwa o fod yn Gydymaith yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ers 2018. Yn ystod eu cyfnod yn y swydd, mae Cymdeithion wedi cael eu trwytho yn y cyfleoedd dysgu proffesiynol o'r ansawdd uchaf sydd ar gael ledled Cymru a thu hwnt.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus eleni yn ffurfio'r seithfed garfan o Gymdeithion a byddant yn cymryd rhan mewn profiad dysgu proffesiynol profedig a fydd yn eu datblygu fel arweinwyr system credadwy ac effeithiol, gan arwain dysgu yn eu lleoliadau eu hunain a thu hwnt.

**Fel Cydymaith o fewn carfan 7 byddwch yn mwynhau:**

- Profiadau dysgu proffesiynol, preswyl yn cynnwys sesiynau dan arweiniad Cymdeithion presennol, staff ac arbenigwyr arweinyddiaeth, sy'n canolbwyntio ar sgiliau arwain systemau allweddol gan gynnwys eiriolaeth, hwyluso, porthgadw a gwella.
- Y cyfle i gwblhau comisiwn ymchwil cydweithredol yn canolbwyntio ar un o flaenoriaethau allweddol taith addysg Cymru.
- Gweminarau gan arweinwyr cydnabyddedig o bob rhan o'r byd, gyda chynnwys wedi'i dargedu'n benodol at ffocws eich comisiwn. Mae siaradwyr blaenorol wedi cynnwys: Yr Athro Steve Munby CBE, yr Athro Mick Waters, yr Athro Laura McAllister CBE, yr Athro Michael Fullan, yr Athro Ken Muir, yr Athro Graham Donaldson, a Diana Osagie.
- Bod yn rhan o'r panel sy'n sicrhau ansawdd darpariaeth datblygu arweinyddiaeth ar gyfer y sector addysg yng Nghymru.
- Y cyfle i herio a dylanwadu ar bolisi addysg trwy ymgysylltu ag uwch swyddogion y llywodraeth.
- Mynediad blaenoriaethol i holl ddigwyddiadau'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol a chyfle i ddatblygu eich sgiliau hwyluso ymhellach trwy arwain grwpiau trafod a hwyluso sesiynau cwestiwn ac ateb gydag enwau amlwg o'r byd arweinyddiaeth.

## Rôl y Cydymaith:

**1. Sicrhau Ansawdd**

- Bod â rôl weithredol, fel aelodau'r panel, wrth gefnogi sicrhau ansawdd trwy'r broses gymeradwyo a monitro.

**2. Arweinyddiaeth System**

- Cynrychioli 'llais arweinyddiaeth' o fewn yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ac ar draws y system addysg.
- Datblygu ymhellach wybodaeth, sgiliau a phrofiad fel arweinwyr systemau trwy brofiadau dysgu proffesiynol, gweminarau, cyfarfodydd rheolaidd i ddiweddaru Cymdeithion, rhwydweithiau, a sgyrsiau proffesiynol.

**3. Datblygu Arweinyddiaeth**

- Mynychu a hwyluso amrywiaeth o gyfleoedd Datblygu Arweinyddiaeth sy'n cyfrannu at alluoedd proffesiynol arweinwyr eraill.

**4. Mewnwelediad i Arweinwyr Addysgol a Llunwyr Polisi**

- Cymryd rhan weithredol mewn comisiynau ymchwil ac adolygiadau beirniadol ar lenyddiaeth academaidd a pholisi rhyngwladol.

**5. Cyfathrebu a Marchnata**

- Cefnogi datblygiad ‘Academi Arweinyddiaeth Ddigidol’, gan gynhyrchu cynnwys ar gyfer y wefan trwy fideos, blogiau, ac astudiaethau achos o brofiadau personol.

**6. Rhanddeiliaid a Phartneriaethau**

- Mabwysiadu rôl sy'n wynebu tuag allan, gan weithio gydag a thrwy ystod o rwydweithiau i sicrhau bod y sector addysgol cyfan yn teimlo’n gysylltiedig â'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ac yn deall ei weledigaeth a'i gwerthoedd.

## Ymrwymiad amser

Bydd yr ymrwymiad amser disgwyliedig i gyflawni’r rôl yn amrywio ar draws wythnosau, yn ôl diddordeb ac arbenigedd y Cydymaith, mewn egwyddor mae’n cyfateb i 1 diwrnod yr wythnos a bydd yn cynnwys pedwar profiad dysgu preswyl 2 ddiwrnod, a chyfarfodydd bob hanner tymor (2 awr ar-lein), gweminarau tymhorol, cynadleddau a gweithgarwch sicrhau ansawdd parhaus.

Mae'r profiadau dysgu proffesiynol wedi'u cynllunio i gyflawni dau brif ganlyniad.

- Bydd yn datblygu'r sgiliau arwain sydd eu hangen i weithredu fel arweinydd system.
- Eich arfogi ar gyfer rôl Cydymaith wrth arwain diwygio strategol.

Bydd cyfle hefyd i’r Cymdeithion gydweithio ar gomisiynau ymchwil a fydd yn mynd i’r afael â materion o bwys cenedlaethol ar ran yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, yn ogystal â rhoi’r cyfle i chi ddatblygu eich sgiliau ymchwil eich hun.

Am y cyfnod o ddwy flynedd bydd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn rhoi cyfraniad o £10,000 y flwyddyn i’r cyflogwr i gefnogi rhyddhau’r arweinwyr am gyfnod sy’n cyfateb i 1 diwrnod yr wythnos.

## Meini Prawf Dethol

Ar gyfer y rownd nesaf hon o Gymdeithion, mae gennym ddiddordeb arbennig mewn penodi uwch arweinwyr o ystod o leoliadau addysgol ledled Cymru gan gynnwys, Penaethiaid a Dirprwy Benaethiaid o ysgolion arbennig, UCDau, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion pob oed, ysgolion ffydd ac Uwch Arweinwyr o'r sectorau Gwaith Ieuenctid, Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Oedolion yn y Gymuned.

**Mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn dymuno penodi Cymdeithion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys pobl Ddu a Mwyafrif Byd-eang ym mhob sector.**

Bydd pob lleoliad addysgol ar wahanol gamau o'u taith wella a gwahoddir pob arweinydd i ystyried i ba raddau y maent yn bodloni'r meini prawf isod a'r arbenigedd a'r profiad penodol y gallant eu cynnig i rôl y Cydymaith.

**Bydd disgwyl i'r Cydymaith llwyddiannus ddangos y canlynol yn ei rolau presennol a/neu flaenorol:**

- Uwch arweinydd presennol mewn sector addysgiadol gydag o leiaf bum mlynedd o brofiad arweinyddiaeth uwch llwyddiannus.
- Gwybodaeth a defnydd o'r Safonau Galwedigaethol a/neu Broffesiynol priodol ar gyfer cyflwyno ac arwain.
- Gwelliant ar draws ystod o feysydd mewn lleoliadau presennol neu flaenorol.
- Cydweithio a rhwydweithio y tu hwnt i'w lleoliad eu hunain.
- Mynd i'r afael â materion system gyfan ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol.
- Y gallu i ddangos ymrwymiad i addysg yng Nghymru trwy eu harweinyddiaeth.
- Diddordeb mewn datblygu arweinyddiaeth a dysgu proffesiynol.
- Sicrhau bod digon o gapasiti arweinyddiaeth yn eu lleoliad eu hunain i ddarpar arweinydd gamu i fyny ac arwain tra bod y Cydymaith allan yn gweithio yn y system ehangach.

Mae rôl y Cydymaith yn cefnogi'r arfer o arwain systemau, a fydd yn rhoi gwobr a chyflawniad sylweddol o ran datblygu arweinyddiaeth i'r ymgeisydd llwyddiannus tra hefyd yn rhoi cyfle i wneud gwahaniaeth ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Bydd y canlynol hefyd yn cael eu hystyried wrth asesu ceisiadau:

- Bydd yr ymgeisydd yn fodel rôl ar gyfer arweinyddiaeth a bydd angen iddo ddangos sgiliau rhyngbersonol lefel uchel ynghyd â chyfathrebu effeithiol.
- Bydd yr ymgeisydd yn destun gwybodaeth gyfrinachol a gwleidyddol sensitif a bydd angen iddo ddangos y gallu i weithio'n effeithiol yn y cyd-destun hwn.

## Proses Ymgeisio

**Dylai'r rhai sydd â diddordeb yn y rôl:**

- Cwblhewch y Ffurflen Gais Rôl Cydymaith gan ddangos y profiad a'r arbenigedd y gall yr ymgeisydd eu cynnig i rôl y Cydymaith.

Bydd eich cais yn cael ei asesu gan banel amrywiol o staff yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, Cymdeithion, aelodau o'r grŵp rhanddeiliaid, aelodau bwrdd a sefydliadau partneriaeth.

Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i fynychu cyfweliad trwy 'Zoom/Teams' yn ystod Mehefin 2024. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu hysbysu yn ysgrifenedig erbyn 5ed Gorffennaf 2024.

Os na chaiff ymgeiswyr eu dewis y tro hwn, bydd cyfleoedd eraill i weithio gyda'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol a gwneud cais am y rôl eto yn y dyfodol.

Mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n gallu dangos eu haddasrwydd ar gyfer y rôl trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

## Terfynu'r rôl

Gall rôl unigolyn fel Cydymaith gael ei therfynu gyda 3 mis o rybudd ar unrhyw adeg gan yr unigolyn neu gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol. Mewn amgylchiadau eithriadol mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn cadw'r hawl i derfynu rôl y Cydymaith ar unwaith.

## Amserlen:

| | |
|---|---|
| Proses ymgeisio yn agor.<br><ul><li>Wedi'i hysbysebu ar wefan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol a sianeli cyfryngau cymdeithasol.</li><li>Wedi'i hysbysebu trwy wefannau rhanddeiliaid / cylchlythyrau / sianeli cyfryngau cymdeithasol.</li><li>Wedi'i hysbysebu trwy gylchlythyr Llywodraeth Cymru a sianeli cyfryngau cymdeithasol.</li></ul> | 8 Ebrill 2024 |
| Proses ymgeisio yn cau | 12:00 hanner dydd, 10 Mai 2024 |
| Ceisiadau rhestr fer | 13 Mai – 17 Mai 2024 |
| Cyfweliadau panel dethol Cymdeithion | 3 Mehefin – 14 Mehefin 2024 |
| Hysbysu ymgeiswyr o ganlyniad y panel dethol | 21 Mehefin 2024 |
| Rôl y Cydymaith yn dechrau.<br><br>Sylwch y bydd y cyfnod sefydlu ar gyfer Cymdeithion newydd yn digwydd wyneb yn wyneb dros 2 ddiwrnod yn ystod mis Medi 2024. | 1 Medi 2024<br><br>25 – 26 Medi 2024 |

Croesewir ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n gallu dangos eu gallu fel Cydymaith yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

I wneud cais anfonwch eich ffurflen gais i post@agaa.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am yr uchod, cysylltwch â Mark Isherwood ar mark.isherwood@agaa.cymru.

Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales

agaa.cymru | nael.cymru